

Prasugrel gydag ymyriad coronaidd drwy bigiad ar gyfer syndromau coronaidd aciwt

Gorffennaf 2014

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir prasugrel 10 mg fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â [syndrom coronaidd aciwt](#) sy'n cael [ymyriad coronaidd drwy bigiad](#).

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych syndrom coronaidd aciwt ac yn cael triniaeth a elwir yn ymyriad coronaidd drwy bigiad, a bod eich meddyg o'r farn mai prasugrel yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai pobl sy'n cymryd prasugrel hefyd gymryd aspirin bob dydd.

Dylai prasugrel fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Cafodd prasugrel ei argymhell am ei fod yn gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio tua'r un faint.

Y cyflwr a'r driniaeth

Syndrom coronaidd aciwt yw'r enw a roddir ar grŵp o broblemau yn ymwneud â'r galon yn cynnwys angina ansefydlog a dau fath o drawiad ar y galon (cnawdnychiad myocardaidd nad yw'n godiad cylchrannau ST a chnawdnychiad myocardaidd sy'n godiad cylchrannau ST).

Mae ymyriad coronaidd drwy bigiad yn driniaeth ar gyfer lledaenu rhydweli sy'n cael ei rhwystro neu sydd wedi culhau. Mae'n defnyddio balŵn i ymestyn y rhydweli ar agor - gelwir hyn yn 'angioplasti'. Rhoddir tiwb rhwyll bach, a

elwir yn stent, yn y rhydweli yn ystod y driniaeth. Gadewir y stent yno yn barhaol er mwyn helpu i gadw'r rhydweli ar agor.

Cyffur yw prasugrel sy'n gallu lleihau neu atal torthenni gwaed rhag ffurfio mewn rhydweliau. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer pobl sydd â syndromau coronaidd aciwt sy'n cael ymyriad coronaidd drwy bigiad.

Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Cymdeithas Cleifion Cardiaidd Prydain, 01223 845845, www.bcpa.co.uk
- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311, www.heartuk.org.uk
- The Pumping Marvellous Foundation, 0800 9788133 neu +44 1282 778059, www.pumpingmarvellous.org
- Sefydliad Iechyd De Asia, ebost: info@sahf.org.uk, www.sahf.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0758-8